Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coetiroedd **Talyllychau** | **Talley** Woodlands

Croeso i Goedwigoedd Canolbarth Cymru

Mae coedwigoedd Canolbarth Cymru yn gorwedd oddi mewn i driongl bras o Dregaron yn y gogledd, Llanfair ym Muallt yn y dwyrain, a Chaerfyrddin i'r gorllewin. Mae'r coedwigoedd yn amrywio'n fawr o ran cymeriad, o goedwigoedd Sitca at gynhyrchu pren Tywi, at natur donnog coedwig Brechfa, hyd at y coetiroedd bach cymysg ar hyd Afon Cothi.

Triwch safleoedd picnic a theithiau cerdded byrion coedwigoedd Canolbarth Cymru. Mae Brechfa yn mynd yn enwog am ei llwybrau beiciau mynydd, a Chrychan oherwydd ei chyfleusterau marchogaeth ceffylau helaeth. Gweler y map i weld ble arall y gallwch fynd a beth gallwch ei wneud.

Plannodd y Comisiwn Coedwigaeth y coetiroedd hyn yn wreiddiol i gynhyrchu pren. Heddiw, yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar eu holau er mwyn i bobl eu mwynhau ac i fywyd gwyllt fyw ynddynt.

Welcome to the Forests of Mid Wales

The forests of Mid Wales lie within a rough triangle from Tregaron in the north, Builth Wells in the east, and Carmarthen in the west. The forests vary hugely in character, from the timber producing Sitka forests of Tywi, the undulating nature of Brechfa forest, down to the small mixed woodlands along the Afon Cothi.

Why not try the forests of Mid Wales's picnic sites and short walks? Brechfa is famous for its mountain bike trails, and Crychan for its extensive horse-riding facilities. See the map to see where else you can go and what you can do.

The Forestry Commission originally planted these woodlands to produce timber. Today, however, Natural Resources Wales also looks after them for people to enjoy and wildlife to live in.



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100019741
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100019741

Rhybudd Sylwch ar yr arwyddon rhybydd - maent yno i'ch diogelu!
Warning Please pay attention to any warning signs - they are there for your safety!





Coetiroedd Talyllycllau - uwchben yr Abaty

Tyfodd y pentref hanesyddol hwn o gwmpas yr hen Abaty Premonstratensaidd a sylfaenwyd yn y 12fed ganrif ar flaenau'r llynnoedd. Mae gan lawer o'r hen dai gysylltiad â'r Abaty, gan gynnwys Kings Court,Y Plas a Talley House. Codwyd yr Eglwys, sy'n dyddio o'r 17eg ganrif, gan ddefnyddio cerrig o'r Abaty.

Talley Woodlands - above the Abbey

This historic village grew up around the Premonstratensian Abbey that was founded in the 12th century at the head of the lakes. Many of the old houses have links with the abbey including Kings Court,Y Plas and Talley House. The 17th century Church was built using stone from the Abbey.

Taith Gerdded Golygfeydd Talyllychau
Talley Views Walk

Caled | Strenuous

Pellter | Distance: 1¾m | 2.9km
Amser | Time: 1½ awr | hours
Dringo | Climb: 180m | 600 tr/ft

Dringwch fryn eithinog ar lwybr igam-ogam gyda golygfeydd yn ymagor o bentref Talyllychau a thu hwnt. Wrth ichi groesi cae ar eich ffordd at glwyd, mae golygfeydd o Ddyffryn Cothi yn agor allan ar yr ochr dde. Drwy lwc mae mainc ar y pen uchaf gan ei bod hi'n dipyn o ddringfa! I lawr y rhiw bob cam yw hi wedyn yn ôl i'r maes parcio.

A yw'r daith hon yn iawn i chi? Mae angen lefelau ffitrwydd uchel. Argymhellir cael esgidiau cerdded sydd â gafael da. Gall y llwybrau fod yn llithrig pan fo hi'n wlyb.

Climb up a gorse-covered hill on a zig-zag path with views opening up of Talley village and beyond. As you cross a field on the way to a gate, views of the Cothi Valley open up on your right. Luckily there is a bench at the top as it is quite a climb! It's all downhill from there back to the car park.

Is this walk right for you? High level of fitness required. Walking boots with a good grip recommended. Paths can be slippery when wet.

Taith Gerdded y Coed Mawr
Big Trees Walk

Caled | Strenuous

Pellter | Distance: 1¼m | 2.2km
Amser | Time: 1 awr | hour
Dringo | Climb: 180m | 600 tr/ft

Dringwch ar lwybr serth drwy cyn 'ardd goed' neu arboretwm,gan gadw llygad am goed derw, ynn, pin a phefrwydd anferthol. Yn y diwedd byddwch yn cyrraedd llecyn gwylio trawiadol (ar ddiwrnod clir) gyda mainc i orffwys arni, cyn mynd ar i waered ar hyd ochr bryn eithinog yn ôl i'r maes parcio.

A yw'r daith hon yn iawn i chi? Mae angen lefelau ffitrwydd uchel. Argymhellir cael esgidiau cerdded sydd â gafael da. Gall y llwybrau fod yn llithrig pan fo hi'n wlyb.

Climb up steeply through a former 'tree garden' or arboretum, looking out for the huge oak, ash, pine and spruce trees. Eventually you will reach a spectacular viewpoint (on a clear day) and a bench to rest on, before dropping down a gorse-covered hillside back to the car park.

Is this walk right for you? High level of fitness required. Walking boots with a good grip recommended. Paths can be slippery when wet.

Taith Gerdded Cwm yr Efail
Cwm yr Efail Walk

Caled | Strenuous

Pellter | Distance: 2½m | 4km
Amser | Time: 2 awr | hours
Dringo | Climb: 180m | 600 tr/ft

Dringwch lwybr serth ar hyd ffyrdd y goedwig drwy Gwm yr Efail tan byddwch yn gadael y coed mewn llecyn gwylio trawiadol. Cymrwch hoe haeddiannol a mwynhau'r golygfeydd ar y fainc yno. Troellwch eich ffordd yn ôl i lawr y bryn at y maes parcio.

A yw'r daith hon yn iawn i chi? Mae angen lefelau ffitrwydd uchel. Argymhellir cael esgidiau cerdded sydd â gafael da. Gall y llwybrau fod yn llithrig pan fo hi'n wlyb.

Climb steeply up forest roads through Cwm yr Efail until you emerge from the forest at a spectacular viewpoint. Have a welcome break and take in the views on the bench there. Wind your way downhill back to the car park.

Is this walk right for you? High level of fitness required. Walking boots with a good grip recommended. Paths can be slippery when wet.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

P parcio / parking
ffin coedwig CNC / NRW forest boundary
lle picnic / picnic area
llwybrau cerdded / walking trails
llwybrau beicio mynydd / mountain bike trails
marchogaeth / horse riding

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government